**Saif Y Trallwng** lle mae ucheldir Cymru yn dod i gysylltiad â gorlifdir eang afon Hafren. Yn ôl y sôn, roedd y dref yn safle eglwysi a sefydlwyd yn y 6ed ganrif gan Gynfelyn Sant a'i frawd Llywelyn. Yn ystod y 13eg ganrif dyfarnwyd i'r dref statws bwrdeistref a'r dref a ddatblygodd wedi hynny yw craidd Y Trallwng heddiw.



*Y Stryd Fawr, Y Trallwng*

Ymosododd Owain Glyndŵr ar Y Trallwng athref i eraill yr ardal yn ystod ei wrthryfel yn erbyn Harri IV yn 1400. Heddiw, mae Llwybr Glyndŵr yn arwain drwy'r dref. Ffynnodd Y Trallwng yn sgîl datblygiad y diwydiant gwlân yn ystod yr Oesoedd Canol a hyd heddiw mae nifer o adeiladau pren yn dyddio o'r 15fed a'r 16eg ganrif yn nodweddu'r dref. Esgorodd agoriad camlas Sir Drefaldwyn yn 1796 a rheilffordd y Cambrian yn 1862, ynghyd â thwf y diwydiant gwlanen, ar gyfnod ffyniannus ac mae'r tai Sioraidd hardd yn dystion i'r cyfoeth a grëwyd. Amaethyddiaeth a thwristiaeth yw prif ddiwydiannau'r Trallwng a'r fro heddiw ac gall y dref frolio marchnad da byw fwyaf modern y DU a'r arwerthiant defaid undydd mwyaf yn Ewrop.



*Amgueddfa Powysland*

**Daeareg Y Trallwng**

Ffurfiwyd creigiau Ordofigaidd a Silwraidd y fro, rhwng 460 a 420 miliwn o flynyddoedd yn ôl, er bod y rhan fwyaf o'r dref yn sefyll ar glog-glai a dyddodion ffrwdrewlifol yr Oes Iâ ddiwethaf. Dyddodwyd y gwaddodion a roes fod i'r creigiau ar lawr cafn morol mawr a oedd yn graddol ymsuddo. Gorweddai'r cafn, neu Fasn Cymru fel y'i gelwir gan ddaearegwyr, ger glannau cyfandir bach Afalonia a safai i'r de o'r cyhydedd. Yn wreiddiol, ymgasglodd y gwaddodion ar ymylon Basn Cymru ond fe'u disodlwyd o bryd i'w gilydd gan ddaeargrynfeydd neu stormydd garw, a barai iddynt hyrddio i lawr llechweddau'r basn. Arweiniodd y llifau niferus hyn at greu tywodfeini a cherrig llaid haenog yr ardal. Ar adegau, roedd lefel y môr yn ddigon isel i'r ardal droi'n draeth. Dan ddylanwad y platiau tectonig symudol, araf gau fu hanes Cefnfor Iapetws i'r gogledd o Afalonia, wrth i'r gramen gefnforol gael ei dansugno (ei dynnu i grombil y Ddaear) o dan y gramen gyfandirol y naill ochr a'r llall i'r cefnfor. O ganlyniad, symudodd Afalonia tua'r gogledd. Wrth i'r plâtiau suddo'n ddwfn i mewn i'r Ddaear, esgorodd y tansugno ar folcanigrwydd a arweiniodd at greu creigiau igneaidd Chwarel Standard, Y Crugion a Chastell Trefaldwyn. Ar ddiwedd y cyfnod Silwraidd bu Afalonia mewn gwrthdrawiad â Lawrensia, digwyddiad a unodd ogledd a de Prydain. Bu'r cyfnod o godi mynyddoedd (orogeni) a ddilynodd y gwrthdrawiad, rhwng 410 a 380 miliwn o flynyddoedd yn ôl, hefyd yn gyfrifol am greu plygion a ffawtiau, a metamorfforeiddio'r creigiau.



*Siâl Silwraidd*

**Cerrig adeiladu**

Defnyddiwyd cerrig lleol yn y lle cyntaf i godi addoldai, tra oedd tai yn cael eu hadeiladu o bren yn bennaf. Mae'n debyg mai'r Rhufeiniaid a wnaeth y defnydd cyntaf o ddulliau cloddio arbenigol er mwyn sicrhau cyflenwadau o gerrig adeiladu. Yn ystod y canrifoedd dilynol, gwnaed defnydd helaeth o gerrig wrth godi adeiladu pwysig, megis cestyll ac eglwysi, ond roedd cartrefi'r werin yn dal i gael eu codi o bren. Wrth i'r economi ffynnu, dechreuwyd codi tai o gerrig a gloddiwyd yn gyntaf mewn chwareli lleol a oedd yn weithredol dim ond pan oedd galw am gerrig. Gyda dyfodiad y camlesi a'r rheilffyrdd, gellid cludo cerrig o gryn bellter ac o ganlyniad cynyddodd y gwaith adeiladu yn aruthrol. Cerrig oedd y prif ddefnydd adeiladu hyd ddiwedd y 19eg ganrif pryd y datblygwyd dulliau mwy modern o gynhyrchu brics. Yna, cafodd nifer o adeiladau eu codi o friciau. Yn ystod y 1960au, dechreuodd concrit cyn-gastiedig ddisodli defnyddiau naturiol ac yn fwy diweddar mae cerrig adeiladu o Awstralia a China, er enghraifft, yn cystadlu â chynnyrch lleol.

**Cerrig adeiladu i'w gweld yn Y Trallwng**

Ffurfir **creigiau igneaidd** o graig dawdd (magma). Os yw magma yn oeri'n araf mae'r crisialau unigol yn fawr a gellir eu gweld â llygad noeth, ond os yw'n oeri'n gyflym mae'r graig yn fwy mân-grisialog.
Dyma'r enghreifftiau sydd i'w gweld ar y daith:

Mae gwenithfaen, a ffurfir yn araf ar ddyfnder mawr, yn cynnwys crisialau mawr. Codwyd adeiladau ohono yn y gorffennol ond bellach fe'i gwelir dim ond ar ffurf ymylfeini a sets, haenau addurnol ar flaen adeiladau masnachol, a chofebion.





Mae **dolerit** yn graig grisialog, wydn sydd i'w chael ar ffurf siliau a deiciau a fewnwthiwyd i ganol creigiau hŷn. Mae rhai o 'gerrig gleision' Côr y Cewri yn ddoleritau.

Mae tracyt, sydd i'w gael yn Chwarel Standard, yn graig fân-grisialog allwthiol (lafa) yn bennaf ond gall ffurfio siliau a deiciau mewnwthiol. Gwnaed defnydd mawr o'r garreg hon yn y dref.



Ffurfir **creigiau gwaddod** wrth i waddodion, sy'n cynnwys darnau o greigiau cynfodol, ymgrynhoi naill ai mewn dŵr neu ar dir sych. Yn aml, mae'r creigiau'n haenog ac yn cynnwys ffosilau.



Mae'r tywod mewn tywodfaen yn ymgasglu naill ai mewn dŵr neu ar ffurf twyni mewn ardaloedd cyfandirol, cras. Fel arfer, mae tywodfeini diffeithdiroedd yn goch ac mae'r gronynnau tywod yn sfferaidd a chaboledig.

Calchit yw calchfaen yn bennaf ac mae'r graig yn ffurfio mewn moroedd cynnes, bas o ganlyniad i waddodiad calsiwm carbonad o ddŵr môr, neu wrth i gregyn a sgerbydau organebau morol ymgrynhoi.



Mae **creigiau metamorffig** yn greigiau igneaidd neu waddod a newidiwyd dan ddylanwad tymheredd uchel a gwasgedd dwys.



Mae llechfaen yn graig fetamorffig fân-ronynnog a ffurfiwyd wrth i garreg laid ddod dan ddylanwad tymheredd a gwasgedd cymhedrol. Mae'r graig, sy'n hollti'n rhwydd, yn ddefnydd toi delfrydol. Gan nad yw'r cerrig llaid yng nghyffiniau'r Trallwng wedi'u metamorfforeiddio'n ddigonol, maent ar ffurf sialau yn hytrach na llechfeini.

Cynhyrchir briciau o glai neu siâl mâl. Mae eu lliw yn dibynnu ar y mwynau sy'n bresennol a'r amodau yn ystod y tanio. Gwelir briciau o feintiau a lliwiau gwahanol ar y daith.




Paratowyd y daflen hon gan aelodau o Glwb Daeareg Canolbarth Cymru gyda chymorth Dr John Davies, cyn ddaearegwr rhanbarthol Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae Clwb Daeareg Canolbarth Cymru yn gymdeithas amatur a chanddi ddiddordeb yn y gwyddorau daear. Croesewir dechreuwyr: cysylltwch â Bill Bagley (01686 413967) neu edrychwch ar y wefan.
Cynhelir cyfarfodydd min nos yn fisol, fel arfer ar y drydedd nos Fercher ym Mhlas Dolerw, Milford Road, Y Drenewydd. Cynhelir teithiau maes misol ar y Sul.
*Ffotograffau gan Bill Bagley, Richard Becker ac aelodau o Glwb Daeareg Canolbarth Cymru.*


**Gellir hefyd lwytho i lawr y daflen hon, neu fersiwn Saesneg ohoni, ar ffurf ffeil pdf, fel rhan o Brosiect Treftadaeth Ddaearegol Y Trallwng**

**Mid Wales Geology Club**
www.midwalesgeology.org.uk
Affiliated

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

cyfieithu gan
Dyfed Elis-Gruffydd






**1. Amgueddfa Powysland** yw man cychwyn y daith. Sefydlwyd yr amgueddfa gan Glwb Powysland yn 1874 ac fe gafodd ei hailgartrefu yn yr adeilad presennol yn 1990. Hen warws deulawr camlas Sir Drefaldwyn yw'r adeilad, a godwyd o friciau gwaith brics Tal-y-bont. Tywodfaen Cefn, a gloddiwyd ger Wrecsam, yw fframiau'r ffenestri, craig a ddyddodwyd ar ffurf delta yn ystod y cyfnod Carbonifferaidd, tua 325 miliwn o flynyddoedd yn ôl.



**2. 18 Severn St** Ailgynlluniwyd y tŷ hwn yn 1863 yn null yr Adfywiad Gothig gan y cyfreithiwr Abraham Howell. Mae'r cyntedd o dywodfaen Cefn hefyd yn cynnwys briciau o dri gwahanol liw mewn dull addurnol. Mewn gwirionedd, mae bricsen, a gynhyrchwyd o glai, yn graig fetamorffig o waith dyn. Y mwynau yn y clai a'r tymheredd y cafodd y briciau eu crasu sy'n gyfrifol am y gwahanol liwiau. Mae'r lliw coch yn dynodi presenoldeb ocsidau haearn a'r melyn yn deillio o bresenoldeb calch. Mae tanio ar dymheredd uchel heb fawr o ocsigen yn esgor ar fricsen las.





**3. 24 Severn St** Y Llys Sirol yw'r adeilad hwn, a godwyd yn wreiddiol tua 1820 gan y cyfreithiwr Richard Griffiths Parry. Yn y cyntedd portico ceir colofnau Dorig cypledig o dywodfaen Cefn, er mai tywodfaen 'Pennant' Carbonifferaidd o Fforest y Ddena a ddefnyddiwyd yn ddiweddar wrth adnewyddu gwaelodion y colofnau.

**4A a 4B Wrth gerdded ar hyd y palmentydd**, sylwch ar y llorlechi a'r ymylfeini. Yn ôl pob tebyg, mewnforiwyd tywodfaen y llorlechi o India. Craffwch arnynt ac fe welwch grychnodau a ffurfiwyd gan symudiadau tonnau neu gerhyntau ar draws wyneb y gwaddodion meddal gwreiddiol. Daeth gwenithfaen yr ymylfeini o China, yn ôl pob tebyg.



**5. Gwesty'r Royal Oak Codwyd** yr adeilad hwn tua chanol y 18fed ganrif. Mae'r briciau a ddefnyddiwyd yn amrywiol eu maint, sy'n awgrymu y cawsant eu llunio â llaw gan ddefnyddio clai o byllau lleol. Cynhyrchid briciau yn Y Trallwng o'r 16eg ganrif ymlaen, ac ar raddfa fawr o 1620 ymlaen gan deulu Herbert o Gastell Trefaldwyn, ond 25 mlynedd yn ddiweddarach dinistriwyd y gwaith brics yn ystod y rhyfel cartref. Mae colofnau Dorig y cyntedd yn anarferol gan fod y naill yn dywodfaen Cefn a'r llall yn dywodfaen Grinshill.




**6. Eglwys y Santes Fair** Fe'i sefydlwyd yn y 6ed ganrif gan Gynfelyn Sant ond mae'r eglwys bresennol, sy'n cynnwys gwaith adeiladu diweddarach o lawer, yn dyddio o'r 13eg ganrif. Tywodfaen Cefn yw'r grisiau sy'n codi o'r stryd. Lluniwyd bwtresi'r mur a'r Gofeb Ryfel o dywodfaen Permo-Triasig a ddaeth o Amwythig, yn ôl pob tebyg. Yn 1871 y codwyd mynedfa newydd yr eglwys, sy'n cynnwys bwa a grisiau o dywodfaen gwyn Cefn a thywodfaen coch Grinshill. Mae'r grisiau uchaf o dywodfaen 'Pennant' yn fwy diweddar. Wrth ochr y cyntedd, daeth rhai o'r cerrig rwbel yn y wal haenog o Abaty Sistersaidd Ystrad Marchell a ddiddymwyd yn 1536.







Casglwyd y cerrig yn waliau rwbel yr eglwys o fan mor agos â phosibl i'r safle adeiladu. Tywodfaen coch Triasig yw'r deial haul ym mynwent yr eglwys a daeth ei waelod o ran o groes fynwent yn dyddio o 1608. Dywedir bod y maen rhewlifol garw gerllaw'r deial haul yn rhan o orsedd abad Ystrad Marchell.

**7. Neuadd y Dref Codwyd** yr adeilad neoglasurol Ffrengig ei gynllun yn 1874 ar safle adeilad cynharach yn dyddio o'r 19eg ganrif. Tywodfaen Grinshill melyn o Swydd Amwythig yw'r garreg adeiladu sy'n prysur hindreulio a briwsioni. Fe'i ffurfiwyd yn ystod y cyfnod Triasig, tua 240 miliwn o flynyddoedd yn ôl, ac mae'n cynrychioli twyni tywod a ddyddodwyd pan orweddai Prydain 20° i'r gogledd o'r cyhydedd. Mae'r tywodfaen naill ai'n goch, os yw'r gronynnau tywod wedi'u gorchuddio ag ocsidau haearn, neu'n wyn os cafodd yr ocsidau eu gwaredu gan hylifau a ddaethai o fewnwthiad igneaidd yn ystod y Palaeogen, 60 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Melyn yw'r lliw os mai cyfran yn unig o'r ocsidau haearn a waredwyd.



**8. 41 Y Stryd Fawr Gwenithfaen** o Bortiwgal o bosibl sydd ar flaen y siop hon. Marmor Carrara o Dwsgani, Yr Eidal, yw'r gris. Defnyddid y marmor Jwrasig hwn (140 miliwn o flynyddoedd oed) ers cyfnod yr hen Rufain a lluniwyd ohono y cerflun o David gan Michaelangelo. Metamorffedd fu'n gyfrifol am ailgrisialu gronynnau gwreiddiol y calchfaen. Mae calchfaen gwyn yn esgor ar farmor gwyn. Amhureddau, yn enwedig ocsidau haearn, sy'n achosi'r gwythiennau a'r chwyrliadau mewn marmorau lliwgar.







**9. Bear Passage** Hanner ffordd ar hyd y dramwyfa ceir enghraifft dda o wal rwbel. Fe'i codwyd o nifer o wahanol gerrig: A. amryfaen Castell Coch; B. Hen Dywodfaen Coch; C. tracyt o Chwarel Standard; Ch. maen o'r clog-glai rhewlifol; D. carreg laid Silwraidd leol; Dd. hen friciau.

**10. 1-3 Park Terrace** Rhes o dri thŷ unffurf eu cynllun a godwyd o friciau ar ddiwedd y 19eg ganrif ond ceir hefyd linteri a moldinau terracotta. Daeth terracotta anwydrog – ei liw yn amrywio yn ôl y clai a ddefnyddid – yn ffasiynol yng nghanol y 19eg ganrif. Esgorai clai Rhiwabon ar liw coch llachar.





**11. 41/42 Mount Street** Ail-luniwyd y tai hyn yn ystod y 19eg ganrif gan ddefnyddio tracyt o Chwarel Standard ar gyrion gorllewinol Y Trallwng. Craffwch ar y garreg hon ac fe welwch fod y crisialau yn llai o lawer na'r rheiny mewn gwenithfaen, oherwydd fod y graig hon wedi oeri'n gyflymach.

**12. Eglwys y Methodistiaid** Fe'i codwyd yn 1874 ar dir a brynwyd gan stad Castell Coch. Lluniwyd fframiau'r ffenestri o galchfaen Jwrasig Box Ground, math o Garreg Caerfaddon ac ynddo wythiennau o galchit a haenau o gregyn. Os craffwch ar y garreg, fe welwch ei bod yn cynnwys gronynnau bach crwn, sef öolitau a ffurfiwyd wrth i haenau o galsiwm carbonad ymgasglu o amgylch mân ronynnau o dywod a chregyn a roliai ar draws gwely'r môr. Ceir ffosilau di-rif yn y garreg hon.





**13. Park Lane** Ar y wal i'r chwith ohonoch, fe welwch enghreifftiau da o Amryfaen Castell Coch. Mae'r graig goch hon yn cynnwys tywod, cerigos ac ambell glogfaen a ymgasglodd yn wreiddiol ar draeth ar lannau môr a orchuddiai'r rhan fwyaf o Gymru yn ystod y cyfnod Silwraidd, tua 440 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Presenoldeb ocsidau haearn sy'n gyfrifol am y lliw coch a ddatblygodd yn ystod y cyfnod Permaidd, tua 260 miliwn o flynyddoedd yn ôl, pan oedd Cymru yn ddiffeithdir poeth.

**14. New Street, Y Talwrn Credir** bod yr adeilad chweochrog hwn, sy'n dyddio o'r 18fed ganrif, yn un o dri thalwrn yn unig yng Nghymru a godwyd o friciau. Gwnaed y briciau bach afreolaidd â llaw yn un o'r pyllau clai lleol. Yn y wal ar y dde ceir cerrig igneaidd o Chwarel y Crugion, blociau o ddolerit ac ynddynt ffelsbarau pydredig.

